PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Polisi Bioamrywiaeth

## 1. Rhagarweiniad

Mae Prifysgol Bangor yn cydnabod y rôl hollbwysig y mae bioamrywiaeth yn ei chwarae wrth gynnal iechyd a gwytnwch ecosystemau, a'r buddion y mae'n eu darparu i'w myfyrwyr a'i staff, yn ogystal ag i'r gymuned leol a'r gymdeithas ehangach.

Mae bioamrywiaeth yn hanfodol i gefnogi holl fywyd y Ddaear. Heb amrywiaeth eang o anifeiliaid, planhigion a micro-organebau, ni allwn gynnal yr ecosystemau iach yr ydym yn dibynnu arnynt i fyw'n gynaliadwy.

Mae gan y Brifysgol enw da iawn o ran addysgu ac ymchwil yn y maes amgylchedd naturiol, ac mae wedi ymrwymo i gymryd camau gweithredu cadarnhaol i helpu i amddiffyn, cefnogi a, lle bo'n ymarferol, gwella bioamrywiaeth ar draws ei hystâd a'i gweithrediadau, yn ogystal â hyrwyddo cadwraeth ac adfer bioamrywiaeth yn y gymuned ehangach.

## 2. Amcanion

Amcanion y Polisi yw cefnogi ein gwaith addysgu, ein hymchwil, a'n cenhadaeth ddinesig, trwy:

i. Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth ar ystâd y Brifysgol trwy ddefnyddio arfer da, ymwybyddiaeth a dulliau rheoli sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd.
ii. Sicrhau cadwraeth, adfer a defnydd cynaliadwy o ecosystemau daearol sy'n gysylltiedig â'r Brifysgol, yn enwedig coetiroedd, coedwigoedd, mynyddoedd a thir sych.
iii. Rheoli a gwella mannau gwyrdd presennol ar y campws, a lle bo'n ymarferol, creu cynefinoedd newydd sy'n bwysig i hyrwyddo bioamrywiaeth, yn enwedig coetir a choed gwasgaredig, dolydd, glaswelltir amwynder ac o amgylch adeiladau
iv. Nodi, monitro ac amddiffyn unrhyw rywogaethau ar Restr Goch yr IUCN, a rhywogaethau ar y rhestr gadwraeth genedlaethol sydd â chynefinoedd mewn ardaloedd y mae gweithrediad y Brifysgol yn effeithio arnynt.
v. Lleihau effaith rhywogaethau ymledol ac anfrodorol (INNS) ar y campws
vi. Ceisio gwella ein perfformiad bioamrywiaeth yn barhaus trwy fonitro, adrodd, ac adolygu data a chanfyddiadau yn rheolaidd
vii. Ystyried ein ffordd o werthuso anghenion bioamrywiaeth, gan gynnwys atal llygredd, mewn buddsoddiadau, caffael, cynllunio a dylunio, codi adeiladau newydd, gwasanaethu a chynnal a chadw, a hyrwyddo effaith gadarnhaol.
viii. Defnyddio bioamrywiaeth i hyrwyddo iechyd a lles trwy wella a defnyddio mannau agored sy'n frith o wahanol rywogaethau.
ix. Darparu cyfleoedd i fyfyrwyr, staff a'r gymuned leol ymgysylltu â bioamrywiaeth a natur
x. Hyrwyddo gwell dealltwriaeth a datblygiad o themâu bioamrywiaeth yng ngwaith addysgu, dysgu ac ymchwil, a gweithrediadau a chyfleusterau'r Brifysgol
xi. Cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd amddiffyn a gwella bioamrywiaeth ar draws campws y Brifysgol, a thu hwnt, ymysg myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach
xii. Ymgysylltu â myfyrwyr, staff a'r gymuned wrth ddatblygu a gweithredu rhaglenni cadwraeth bioamrywiaeth sy'n amddiffyn ac yn gwella cadwraeth bioamrywiaeth, ac yn amlygu rôl ecosystemau naturiol wrth gefnogi iechyd a lles dynol

## 3. Gweithredu

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn, bydd y Brifysgol yn:

i. Cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a safonau cymwys, gan gynnwys y rhai a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Adran 6 ynghylch asesu gwytnwch ecosystemau ac amddiffyn rhestr Adran 7 o gynefinoedd a rhywogaethau sy'n hanfodol bwysig i Gymru
ii. Nodi a blaenoriaethu risgiau a chyfleoedd bioamrywiaeth yn ein gweithrediadau a'n cyfleusterau, a datblygu a gweithredu cynlluniau rheoli i liniaru risgiau ac i wella cyfleoedd
iii. Cefnogi'r fenter bioamrywiaeth, *30 erbyn 30 mewn 30*, sy'n anelu at greu 30 o leoliadau newydd i gefnogi bywyd gwyllt yn well ar draws ystâd y Brifysgol erbyn 2030
iv. Creu, cyflwyno a chynnal a **Cynllun Gwella Bioamrywiaeth** sy'n mynd i'r afael â risgiau a chyfleoedd a nodwyd sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, a sicrhau yr ymgynghorir yn ffurfiol â'r cynllun yn ystod cyfnod dylunio pob datblygiad newydd yn y Brifysgol
v. Ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau arwyddocaol a pherthnasol, gan gynnwys caffael, datblygu projectau, a chynllunio defnydd tir
vi. Hyrwyddo arferion defnydd tir cynaliadwy sy'n amddiffyn ac yn gwella bioamrywiaeth, megis creu ac adfer cynefinoedd, a datblygu isadeiledd gwyrdd
vii. Annog a chefnogi cyfranogiad myfyrwyr, staff a'r gymuned mewn mentrau cadwraeth ac adfer bioamrywiaeth
viii. Monitro ac adrodd ar berfformiad bioamrywiaeth yn rheolaidd i sicrhau gwelliant parhaus
ix. Adolygu a diweddaru'r Polisi Bioamrywiaeth hwn o bryd i'w gilydd, er mwyn adlewyrchu gwybodaeth newydd neu amgylchiadau sy'n newid

**Partneriaethau a Chydweithio**

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod angen gweithredu a chydweithio ar y cyd i amddiffyn ac adfer bioamrywiaeth. Felly, bydd yn ceisio:

i. Cydweithio ac ymgysylltu, lle bo'n ymarferol, ag Undeb Bangor, asiantaethau'r llywodraeth, cyrff anllywodraethol, sefydliadau academaidd, grwpiau cymunedol a myfyrwyr, rhanddeiliaid eraill, a'r gymuned, i hyrwyddo gweithredu ar gadwraeth ac adfer bioamrywiaeth
ii. Cefnogi mentrau a phartneriaethau sy'n hyrwyddo datblygu cynaliadwy, adfer ecosystemau, a chadwraeth bioamrywiaeth

**Cymeradwywyd gan:** **Dyddiad: 15/10/2024**

**Yr Athro Oliver Turnbull, Dirprwy i'r Is-ganghellor a Chadeirydd y Grŵp Strategaeth Cynaliadwyedd**

**Polisi Bioamrywiaeth**
**Yn dod i Rym ar: 15 Hydref 2024** **Dyddiad Adolygu: 2027**